

## **Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**

**a gynhelir trwy gyswllt fideo am 10.00yb ddydd Mawrth 24ain o Hydref 2023.**

### **1. Croeso**

Croesawodd Jamie Burt, Cadeirydd PAVO, bawb a oedd yn bresennol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a diolchodd i bawb am ymuno. Bu'n flwyddyn o newid a thwf i'r sefydliad.

### **2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau

### **3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr 2022**

Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr 2022 cyn y cyfarfod drwy ddulliau ar-lein.

### **4. Adroddiad Blynyddol 2022-2023**

Gwahoddodd Jamie Clair Swales, y Prif Swyddog Gweithredol i gyflwyno'r adolygiad blynyddol.

Cyflwynodd Prif Swyddog Gweithredol Clair Swales Adroddiad Blynyddol 2022-23, gan ddechrau gyda diolch i gydweithwyr a rhanddeiliaid a dywedodd ei bod wedi bod yn flwyddyn o heriau a chyfleoedd yn deillio o effeithiau covid ac sydd bellach yn ymdopi â chostau cynyddol. Cyflwynodd Clair yr adroddiad, gan amlygu rhai ystadegau allweddol yn ymwneud â chyflawni blaenoriaethau strategol PAVO.

Gorffennodd Clair trwy ddiolch i'r holl gydweithwyr, partneriaid, aelodau a'r Bwrdd am y flwyddyn. Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i Wasanaethau Mewnol PAVO am gefnogaeth gyda llywodraethu a rheoli.

Mae'r adroddiad ar gael ar wefan PAVO, a gellir cael copïau printiedig ar gais.

### **5. Datganiadau Ariannol 2022 - 2023 ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr**

Cyflwynodd Angela Owen Ddatganiadau Ariannol 2022 - 2023 ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2023. Eleni mae'r holl adroddiadau blynyddol wedi'u cyfuno'n un ddogfen.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair adran – Adroddiad yr archwilwyr, adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiad o weithgareddau ariannol. Nododd Angela fod yr adroddiad a'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ffurf y datganiad o arfer a argymhellir (SORP). Unwaith eto, roedd PAVO wedi derbyn adroddiad diamod gan yr archwilwyr, mae'r datganiadau yn rhoi crynodeb cywir ac yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth Elusennau a Chwmnïau.

Aeth Angela ymlaen i roi crynodeb o reolaeth sefydliadol PAVO a chyflwynodd ragor o wybodaeth am y pwyntiau allweddol mewn perthynas â chyllid a'r gofrestr risg gynhwysfawr, sy'n asesu'r holl risgiau sefydliadol mawr. Tynnodd sylw at yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn a'r cynnydd yn y cyllid grantiau ar gyfer y sector hwnnw a dderbyniwyd yn ystod 2022-23.

Gorffennodd Angela drwy ddiolch i holl gyllidwyr a rhanddeiliaid PAVO am eu cefnogaeth barhaus ynghyd â'r holl staff, ac yn arbennig i staff Gwasanaethau Mewnol am eu cefnogaeth parhaus wrth baratoi'r adroddiad.

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ymlaen llaw drwy ddulliau electronig.

## **6. Penodi Archwilwyr**

Hysbysodd Jamie y cyfarfod fod Morgan Griffiths a'i Gwmni wedi'i ailbenodi'n archwilwyr. Cymeradwywyd hyn eto trwy ddulliau electronig cyn y cyfarfod.

## **7. Ethol Aelodau'r Bwrdd**

Cyhoeddodd Jamie fod yna 3 ymddiriedolwr yn yr etholiad, sef Myra Francis, Wendy Beaven a Gary Mitchell. Roedd pleidleisiau wedi'u gwneud yn electronig cyn y cyfarfod, roedd pob ymddiriedolwr wedi derbyn y nifer gofynnol o bleidleisiau i'w hethol. Croesawodd Jamie Myra i'r Bwrdd am yr eildro, a diolchodd i Gary a Wendy am eu hymrwymiad parhaus.

Diolchodd Jamie i Clair a dywedodd ei fod yn dal yn hyderus y bydd PAVO a'r trydydd sector yn parhau i wneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl ar draws y sir. Cododd Dominique Jones (ymddiriedolwr) bwynt olaf drwy ddiolch i Jamie am ei waith fel Cadeirydd.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben am 10.30yb.